

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 9: Cyfathrebiadau a Rhwydweithiau

Ionawr 2011

Senario

Cyfeirnod y Papur

6959/01

Dylid dosbarthu'r senario hwn i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos
waith cyn yr arholiad.

Sylwer: **Nid** oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr
arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth
sydd yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (*ICE*),
sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y
senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

Trowch y dudalen ►

W39580A

©2011 Edexcel Limited.

1/



W 3 9 5 8 0 A

edexcel 
advancing learning, changing lives


Parc Gwyliau Water Wonders

Mae cwmni Water Wonders wedi'i leoli yn Llundain. Mae'n berchen ar chwe safle yn Sbaen. Mae'r safleoedd yn cynnwys pyllau nofio, sleidiau dŵr a reidiau dŵr eraill, yn ogystal â chyfleusterau fel barrau-caffi. Maen nhw ar agor bob dydd ac maen nhw'n atyniadau poblogaidd i dwristiaid.

Y llynedd, prynodd y cwmni safle fflatiau gwyliau wrth ymyl un o safleoedd Water Wonders. Mae'r cwmni wrthi ar hyn o bryd yn cyfuno'r ddau i greu Parc Gwyliau Water Wonders.

Rheolwr y project yw Janet Cartwright. Mae hi wedi'ch cyflogi chi i roi cyngor iddi hi ar ddylunio ac adeiladu'r system TG ar gyfer y parc gwyliau. Mae Janet hefyd eisiau i chi ddarparu deunyddiau hyfforddi priodol ar rwydweithiau a chyfathrebiadau. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio gan reolwyr safle dan hyfforddiant gan fod angen iddyn nhw ddeall y systemau ar eu safle.

Mae trefn y parc gwyliau wedi'i dangos ar y map.



Mae'r system TG ar gyfer safle gwreiddiol Water Wonders wedi'i lleoli yn y swyddfa docynnau. Mae'n cynnwys:

- tri pheiriant tocynnau sydd wedi'u galluogi ar gyfer rhwydwaith, gyda darllenwyr cardiau credyd integredig
- cyfrifiadur
- llwybrydd (*router*) gyda chysylltiad band-eang â'r Rhyngrwyd wrth system ffôn Sbaen
- argraffydd laser du a gwyn sydd wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith
- switsh wyth porth.

Roedd y ganolfan gysylltu trwy Rhwydwaith Ffôn Sbaen yn gafodd y safle ei...

- pedwar cyfrifiadur
- argraffydd laser du a gwyn
- cyfrifiadur
- argraffydd laser du a gwyn

Bydd yr offer preswyl newydd ar gyfer y parc gwyliau yn adeiladu'r...

Mae Janet am i'r hanner o'r parc g...

Yn ystod eich cyfwrthdal. Amlinellod...

1. Bydd y parc g... Bydd angen i'r ymwelwyr d... ymwelwyr d...
2. Bydd gweste... boncyffion (l... yn ôl y reid.
3. Mae'n rhaid i...
4. Mae'n rhaid i... gost at eu cy...
5. Mae'n debyg...
6. Bydd gweste... Wonders heb... plentyn, e.e.
7. Mae'n rhaid i... wrthsefyll dŵ... ddefnyddio t... ddyfais ddarl...
8. Dylid cael du...

Mae Janet yn go... ymhen ychydig...

Roedd y ganolfan TG ar gyfer y fflatiau gwyliau mewn man oddi ar y safle ac wedi'i gysylltu trwy RhAE (WAN). Cafodd y cysylltiad a llawer o'r offer TG ei gymryd oddi yno pan gafodd y safle ei werthu. Mae'r offer sy'n weddill yn cynnwys:

- pedwar cyfrifiadur yn y dderbynfa
- argraffydd laser lliw sy'n cael ei rannu
- cyfrifiadur yn swyddfa'r rheolwr wrth ymyl ardal y dderbynfa
- argraffydd laser du a gwyn sydd wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith, yn swyddfa'r rheolwr.

Bydd yr offer presennol ar y ddwy safle'n cael eu cadw ac yn ffurfio rhan o RhAL (LAN) newydd ar gyfer Parc Gwyliau Water Wonders. Bydd y ganolfan TG newydd ar gyfer y parc gwyliau yn adeilad y dderbynfa.

Mae Janet am i'r LAN gael ei wneud o ddau rwydwaith seren â cheblau copr, un ym mhob hanner o'r parc gwyliau, wedi eu huno gan gebl opteg ffibr amlfodd (*multi-mode*).

Yn ystod eich cyfarfod cyntaf â Janet, fe wnaethoch chi drafod system fynediad (*access*) a thalu. Amlinellodd hi rai o'r materion yr oedd angen eu hystyried.

1. Bydd y parc gwyliau ar agor i ymwelwyr dydd yn ogystal ag i westeion preswyl. Bydd angen rhyw fath o reolaeth mynediad electronig wrth y pontydd troed i gadw ymwelwyr dydd allan o ardal y fflatiau.
2. Bydd gwesteion (*guests*) preswyl yn gallu defnyddio'r holl reidiau am ddim (y cafn boncyffion (*log flume*), y reid dŵr gwyllt a'r llyn cychod). Bydd ymwelwyr dydd yn talu yn ôl y reid.
3. Mae'n rhaid i'r reidiau, y barrau-caffi a'r swyddfa docynnau gael eu cysylltu â'r LAN.
4. Mae'n rhaid i westeion preswyl allu prynu eitemau o'r barrau-caffi ac ychwanegu'r gost at eu cyfrif.
5. Mae'n debygol mai dim ond gwisg nofio y bydd pobl yn ei wisgo.
6. Bydd gwesteion preswyl yn cynnwys plant sy'n gallu defnyddio cyfleusterau Water Wonders heb eu rhieni. Mae'n rhaid rhoi dull i rieni o gyfyngu ar weithgareddau'r plentyn, e.e. beth gall y plentyn ei brynu a pha reidiau y gall eu defnyddio.
7. Mae'n rhaid i unrhyw ddyfais fynediad neu dalu sy'n cael ei defnyddio yn y system wrthsefyll dŵr a siociau, a rhaid ei bod hi'n wydn (*robust*). Mae'n rhaid i'r ddyfais ddefnyddio technoleg ddi-gyswllt (*contactless*). (Dim cyswllt uniongyrchol rhwng y ddyfais ddarllen a'r gwrthrych sy'n cael ei ddarllen.)
8. Dylid cael dull gweithredu cyffredin ar gyfer pob pwynt mynediad a phwynt talu.

Mae Janet yn gofyn i chi feddwl am y materion hyn a chyflwyno rhai opsiynau iddi hi ymhen ychydig ddiwrnodau.